



ITO:
HANSON BRICK LTD
TECHNICAL SERVICES DEPARTMENT
UNICORN HOUSE
WELLINGTON STREET
RIPLEY DERBY
DE5 3DZ

Ymgeisydd/Applicant:
HANSON BRICK LTD
TECHNICAL SERVICES DEPARTMENT
UNICORN HOUSE
WELLINGTON STREET
RIPLEY DERBY
DE5 3DZ

(DECILLAC)

Cais Rhif: C00A/0441/14/MW

Cofrestrwyd: 11/08/2000

Application Number:

Registered:

DEDDF YR AMGYLCHEDD 1995 – ADOLYGU SAFLEOEDD MWYNAU
ENVIRONMENT ACT 1995 – REVIEW OF MINERAL SITES


Mae'r Cyngor a enwir uchod, yr Awdurdod Cynllunio Lleol, trwy hyn yn **CANIATAU** y datblygiad a geisiwyd gennych, sef:

*The above named Council being the Local Planning Authority **HEREBY PERMIT** the development proposed by you, namely:*

Bwriad/Proposal ADOLYGIAD O GANIATAD CYNLLUNIO RHIF 390 DYDDIEDIG 22 TACHWEDD 1951 /
REVIEW OF PLANNING PERMISSION 390 DATED 22 NOVEMBER, 1951.
Lleoliad/Location GWAITH BRICS SEIONT/SEIONT BRICK WORKS, CAERNARFON, GWYNEDD, LL54 5RP

Mae'r Cyngor a enwir uchod fel yr Awdurdod Cynllunio Mwynau trwy hyn yn pennu cloddio am glai, gwaredu gwastraff, gwaith adfer gyda datblygiad ategol a chysylltiol yn Chwarel Seiont, Caernarfon, fel y caniateir dan ganiatâd cynllunio rhif 390 dyddiedig 22 o Dachwedd, 1951 yn cael ei ymgymryd yn unol â'r cais a'r cynlluniau a gyflwynwyd i'r Cyngor ar 06/06/2001 + 04/06/2003 yn ddarostyngedig i'r amodau cynllunio atodol:

The above named Council as Mineral Planning Authority hereby determine that clay working, re-use of soil waste, restoration work together with associated and additional works at Seiont Quarry, Caernarfon as permitted under planning permission 390, dated 22 November 1951 shall be carried out in accordance with the application and plans submitted to the Council on 06/06/2001 and 04/06/2003 subject to the condition(s) specified over :


RHEOLWR CYNLLUNIO ARDAL/AREA PLANNING MANAGER
ar ran y Pennaeth Gwasanaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth
on behalf of the Planning and Transportation Head of Service

Dyddiad/Date

10/05/2007



Pwysig: Cymerwch sylw

Gall peidio cydymffurfio ag amodau neu newidiadau heb ganiatâd i'r cynlluniau a ganiatawyd wneud y ganiatâd yn annilys. Os nad ydych yn siŵr cysylltwch â'r Awdurdod Cynllunio lleol am gyngor.

Important: Take note

Non compliance with conditions or unauthorised variations to the approved plans could invalidate the consent hereby approved. If in doubt please contact the Local Planning Authority for advice.

Amodau Cynllunio / Planning Conditions

Cychwyniad a hyd amser y gwaith / Commencement and duration of working

- (1) Rhoir caniatâd yma am gyfnod hyd at 21 Chwefror, 2042 ac erbyn hynny daw cloddio a phrosesu siâl fric i ben ac adferir y safle yn unol â'r telerau ar amodau 2 a 13 – 16 isod oni chaniatawyd hawl cynllunio pellach.

Permission is hereby given for a period up to 21 February, 2042 by which time all extraction and processing of brick shale shall have ceased and the site shall have been restored in accordance with the terms of conditions 2 and 13 – 16 below unless a further planning permission has been granted.

Cyffredinol / General

- (2) Oni fo'n angenrheidiol dan amod cynllunio neu wedi'i gytuno mewn ysgrifen gan yr awdurdod cynllunio mwynau, cyflawnir gweithio ac ennill y mwyn, gwaith tipio a gwaith adfer ac ôl-ofal y safle yn unol â'r cais rhif C00A/0441/14/MW, datganiad ategol a'r 'Ecological Species Survey' ddyddiedig Rhagfyr 2002, ac yn fwy neilltuo!
- Cynlluniau C 22/6A, C 22/6B, C 22/6C, C 22/6D, C 22/6E, and C 22/6F [Phases]
 - Rhifau 06a, 06b and 06c [Sections], Rhif 07 [interim restoration], Rhif 08 [Conceptual Restoration] a Rhif 09 [stream diversion]
 - Cynllun rhif. 01307 /001 [Proposed Stockpile Base] dyddiedig 14 /09/01.

Unless otherwise required by planning condition or agreed in writing by the mineral planning authority the winning and working of the mineral, tipping operations and the restoration and aftercare of the site shall be carried out only in accordance with the application ref. no. C00A/0441/14/MW, accompanying statement and the Ecological Species Survey dated December 2002, and more particularly;

- Plans C 22/6A, C 22/6B, C 22/6C, C 22/6D, C 22/6E, and C 22/6F [Phases]
 - Figures 06a, 06b and 06c [Sections], Figure 07 [interim restoration], Figure 08 [Conceptual Restoration] and Figure 09 [stream diversion]
 - Plan No. 01307 /001 [Proposed Stockpile Base] dated 14 /09/01.
- (3) O fewn 12 mis o'r dyddiad hyn dylid bod ffin wyneb y gwaith a ganiateir yn ogystal â ffin wyneb yr ardal tipio a ganiateir wedi'u marcio allan mewn modd sydd yn ddigonol i barhau drwy gydol y gwaith cloddio i foddhad yr awdurdod cynllunio mwynau.

Within 12 months of the date hereof both the boundary of the permitted surface working area and the permitted surface tipping area shall have been marked out in a manner sufficient to endure for the duration of extractive operations to the satisfaction of the mineral planning authority.

- (4) Ni chychwynnir ar y canlynol hyd oni fod o leiaf rhybudd pum diwrnod gwaith wedi'i roi i'r awdurdod cynllunio mwynau;
- (i) codi uwchbridd ac isbridd
 - (ii) Cychwyn unrhyw gontract ymgyrch ar gyfer cloddio mwynau a gwaith pentyrru stoc.

The following shall not be commenced until at least five working days written notice of commencement of work has been given to the mineral planning authority;

- (i) topsoil and overburden strip,
- (ii) Commencement of any campaign contract for mineral extraction and stockpiling operations.

Gwaredu Gwastraff / Waste disposal

- (5) Cyfeirir y gwaith arllwys ar y cyfan i lunio'r ffurfiau tir terfynol a nodwyd ar y cynlluniau a gyflwynwyd ac yn fwy penodol er mwyn osgoi unrhyw ffurfiau tomen conigol, proffiliau tomen llorweddol neu syth neu bonciau rheolaidd neu llorweddol.

Tipping operations generally shall be directed towards the production of final land forms indicated on the submitted plans and shall more specifically be undertaken so as to avoid conical tip forms, horizontal or straight tip profile or regular or horizontal benches.

- (6) Dim ond gwastraff mwynol o'r gwaith y caniateir ei arllwys ar y safle. Ac eithrio priddoedd, isbriddoedd neu gynhelion planhigion eraill na chludir yno heb ganiatâd yr awdurdod cynllunio mwynau, ni ddylid arllwys unrhyw sbwriel na defnyddiau gwastraff o unrhyw fath o fewn na thu allan i'r safle.

Only mineral waste derived from operations hereby permitted shall be deposited within the site. Except for soils, subsoils or other plant growing media, which shall not be imported without the prior written consent of the mineral planning authority, no refuse or waste materials of any description from within or outside the site shall be disposed of or deposited therein.

Adolygiad / Review

- (7) O fewn tair blynedd i'r dyddiad yma rhaid i'r gweithredwr ddarparu a chyflwyno er cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio mwynau adolygiad ffurfiol o'r oll gwaith mwynol a chysylltiol ymgwymerwyd dan delerau'r caniatâd hwn.

Within three years of the date hereof the operator shall prepare and submit for the approval of the mineral planning authority a formal review of all mineral working and ancillary operations which are being undertaken under the terms of this permission.

- (8) Yn dilyn cymeradwyaeth o'r fath adolygiad cyntaf yn unol ag amod 7, oni chytunir fel arall mewn ysgrifenedig gyda'r awdurdod cynllunio mwynau, rhaid cyflwyno adolygiadau pellach er cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio mwynau ar gyfnodau o ddim mwy na phum mlynedd ac ni chaniateir gweithio heb fod yna adolygiad diweddar.

Following the approval of the first such review as required by condition 7, unless otherwise agreed in writing with the mineral planning authority, further reviews shall be submitted for the approval of the mineral planning authority at intervals of not more than five years and no working shall be undertaken in the absence of an up to date review.

- (9) Bydd pob adolygiad ar ffurf rhaglen waith 5 blynedd (neu gyfnod arall y cytunir arno gyda'r awdurdod cynllunio lleol) a nodwyd yn y datganiad ysgrifenedig a amgawyd gyda'r cynlluniau, manylebion a data technegol priodol ac unrhyw wybodaeth resymol arall y

gofynna'r awdurdod cynllunio mwynau amdani. Yn fwy penodol, yn achos pob adolygiad bydd y gweithredwr yn cyfeirio at gynllun ;

- a) manau lle y cyflawnwyd y gwaith awdurdodedig isod ers yr adolygiad diwethaf (neu'n achos yr adolygiad cyntaf, cychwyn y datblygiad) :
 - (i) symud uwchbriddoedd / isbriddoedd / brig / mawn
 - (ii) storio unrhyw un o'r uchod
 - (iii) symud deunydd crai
 - (iv) gwaredu gwastraff mwynau
 - (v) cyflawni gwaith tirweddu / gwaith gwella
 - (vi) cyflawni gwaith draenio dwr wyneb
 - (vii) gwarchod/cofnodi/dymchwel neu symud unrhyw nodwedd o ddiddordeb archeolegol/diwylliant dreftadaeth,
 - (viii) pentyrru deunydd crai.
- b) manau lle bwriedir cyflawni unrhyw un o'r gweithgareddau uchod ac unrhyw driniaeth derfynol ar y ponciau chwarel, talcenni, tomennydd a'r manau gwaith talcen gorffenedig dan y rhaglen 5 mlynedd i ddod;
- c) adolygiad o sustemau dwr y safle, yn benodol berthnasol i'r effaith ar yr amgylchedd ddŵr, fel gollyngiad y safle, a chynhwysedd y lagwnau gwaddodi.

Each review shall be in the form of a five year operational programme, or such other period as may be agreed in writing with the mineral planning authority, set out in a written statement and accompanied by appropriate plans, specifications and technical data and any other information reasonably required in writing by the mineral planning authority. More specifically, for each review the operator shall include;

- (a) areas in which the following permitted operations have taken place since the previous review (or in the case of the first review, the date of this permission) ;
 - (i) removal of topsoils / subsoils / overburden / peat
 - (ii) storage of any of the above
 - (iii) the removal of raw material
 - (iv) the disposal of mineral waste
 - (v) the carrying out of landscaping / ameliorative works
 - (vi) the undertaking of surface water drainage works
 - (vii) the conservation/recording/demolition or removal of any feature of archaeological/cultural heritage interest
 - (viii) stockpiling of raw material.
- (b) areas where it is proposed that any of the above operations and any final treatment of finished quarry benches, faces, tipped areas and surface working areas is to be carried out over the forthcoming five year programme;
- (c) a review of the water management systems at the site, specifically in relation to impacts on the water environment, such as the site discharge, and capacity of settlement lagoons.

- (10) Er gwaethaf y cynllun, 'Conceptual Restoration' [Rhif 08] a gymeradwyir dan amod 2 o'r caniatâd hwn, dim llai na 3 mlynedd cyn fod unrhyw ran o wyneb terfynol y chwarel gaei ei ddatblygu, rhaid cyflwyno er cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio mwynau cynlluniau manwl i ddynodi'r dyluniad a thriniaeth o hynny. Rhaid dylunio a chreu'r ffurf tir terfynol mewn modd i adlewyrchu ffurfiau tir naturiol y cyffiniau a bod wedi ystyried cyfanrwydd daearegol a geomorffolegol y safle RIGS sydd wedi'i ddynodi.

Notwithstanding the 'Conceptual Restoration' plan [Figure 08] approved under condition 2 of this permission, not less than 3 years before any part of the final quarry face is developed, detailed plans shall be submitted for the approval of the mineral planning authority indicating the design and treatment thereof. The final landform shall be designed and constructed to reflect the natural landforms of the surrounding area and shall have regard to the geological & geomorphological integrity of the designated RIGS site.

RIGS

- (11) Rhaid i'r datblygwr ac/neu weithredwr y safle gwneud darpariaeth ar gyfer mynediad i'r Safle o Bwysigrwydd Daearegol/Geomorffolegol Rhanbarthol (RIGS) yn unol â'r datganiadau ag argymhellion a wneir yng Nghofnod/Cofrestr Safle 'Gwynedd a Môn atodwyd i'r caniatâd hwn. Er y caniatâd cynllunio cyf. 390 ac atodlen o amodau a gymeradwywyd dan y caniatâd hwn, rhaid caniatáu mynediad ar bob adeg i'r Safle o Bwysigrwydd Daearegol/Geomorffolegol Rhanbarthol (RIGS) drwy apwyntiad o flaen llaw i berson(au) gyda chymhwyster priodol neu berson(au) gyda diddordeb sylweddol, phrofiadol yn y safle ar gyfer astudiaeth wyddonol ac/neu academiaidd.

The developer and/or site operator shall make provision for access to the Regionally Important Geological/Geomorphological Site (RIGS) consistent with the statements and recommendations made in the 'Gwynedd and Mon Site Record\Registration attached to this permission. Notwithstanding the planning permission ref. 390 and schedule of conditions approved under this permission, access shall be allowed at all times to the Regionally Important Geological/Geomorphological Site (RIGS) by prior appointment to suitably qualified person(s) or person(s) with a proven, substantial interest in the site for the purpose of scientific and/or academic study.

- (12) Ac eithrio gwaith sydd yn hanfodol ar gyfer gweithredu'r pwll clai yn ddiogel, ni chaniateir i'r datblygwr ac/neu y gweithredwr ganiatau, neu achosi i ganiatau unrhyw waith a fuasai'n effeithio'n andwyol mynediad i'r Safle o Bwysigrwydd Daearegol/Geomorffolegol Rhanbarthol (RIGS).

Other than works which are essential to the safe operation of the clay pit, the developer and/or operator shall not permit, or cause to permit any operation which would adversely effect access to the Regionally Important Geological/Geomorphological Site (RIGS).

Adfer / Restoration

- (13) Byddir yn cyflawni gwaith adfer yn raddol fel y dynodir ar y cynlluniau a gyflwynir. Bydd pob rhaglen waith y cyfeirir ato yn amod 15 yn cynnwys gwaith adfer a gyflawnir.

Restoration works shall proceed on a progressive basis as indicated on the submitted plans. Each programme of operations referred to in condition 15 shall include for restoration works to be undertaken.

- (14) Ar ôl ei gwblhau byddir yn monitro canlyniadau ac effeithiau'r holl waith adfer am gyfnod o 5 mlynedd gan gymryd camau adferol priodol, a hynny mewn modd sy'n bodloni'r awdurdod cynllunio mwynau, i ddatrys unrhyw ddiffyg neu broblem berthynol.

On completion thereof the results and effects of all restoration operations shall be monitored for a 5 year period and appropriate remedial measures shall be applied to the satisfaction of the mineral planning authority to rectify any deficiency or problem related thereto.

- (15) Ar neu cyn y terfyn amser a nodir yn amod 1 uchod, neu pan gwblheir y gwaith neu y derfydd cyn pryd, dylid clirio wyneb y tir yn llwyr o bob offer, peiriannau, defnydd a chyfarpar yn ymwneud â'r chwarel. Wedi hynny, dylid ei hadfer er boddhad yr awdurdod cynllunio mwynau cyn belled ag sydd modd yn unol â'r cynlluniau a gyflwynwyd a'r cynllun adolygu ar gael i'w gymeradwyo dan delerau amodau 7 - 10 ac yn unol â'r gofynion canlynol :

- (i) Y safle i'w gadael yn lan a thaclus er boddhad yr awdurdod cynllunio mwynau.
- (ii) Ponciau'r chwarel i'w darparu, trin a'u plannu.
- (iii) Ffyrdd llusgo / wynebau lle bydd cerbydau'r chwarel yn teithio i'w symud / hadfer.

On or before the time limit specified in condition 1, or upon final completion or premature cessation of operations, the land surface shall be cleared of all quarry plant, machinery, materials and equipment. Thereafter it shall be restored to the satisfaction of the mineral planning authority so far as possible in accordance with the approved plans and the extant review scheme approved under the terms of conditions 7 - 10 and in accordance with the following requirements;

- (i) the site to be left in a clean and tidy condition to the satisfaction of the mineral planning authority
- (ii) quarry benches to be prepared, treated and planted
- (iii) haul roads / surfaces to be removed / restored.

- (16) Rhaid dylunio ac adeiladu'r corff dwr gweddilliol i gynnwys cyn belled ag sy'n ymarferol, strip ymylol bâs o'i hamgylch sydd yn meinhaus o gyrion y dŵr at ddyfnder nad yw mwy na 500mm hyd at bellter o leiaf 5m,.

The residual water body shall be so designed and constructed as to include as far as is practicable, a shallow peripheral strip of water around its circumference tapering from the water's edge to no more than 500 mm. deep at a distance of not less than 5m. from the edge.

Swn / Noise

- (17) Rhwng 07.00 a 19.00 Dydd Llun i Dydd Gwener a rhwng 07.00 a 13.00 ar y Sadwrn, ni ddylai lefel y sŵn o'r datblygiad fod yn uwch na'r lefelau L_{Aeq} (1 hour) wedi ei fesur fel lefel sŵn cefndir a ddangosir yn 'ATODLEN 1' isod. Rhaid i'r mesuriadau a gymerir i wireddu cydymffurfiaeth ystyried effeithiau sŵn allanol a byddir yn cael eu cywiro ar gyfer effeithiau o'r fath.

Between the hours of 07.00 and 19:00 Monday – Friday and between the hours of 07.00 and 13.00 on Saturdays, the noise level arising from the development shall not exceed the L_{Aeq} , 1 hour, free field levels shown in 'SCHEDULE 1' below. Measurements taken to verify compliance shall have regard to the effects of extraneous noise and shall be corrected for any such effects.

- (18) Ar bob adeg arall ni ddylai lefel y sŵn o weithgareddau gweddilliol y datblygiad (e.e. pwmpio dwr, gwasanaethu, monitro amgylcheddol cynnal a phrofi offer) fod yn uwch na 39 dB L_{Aeq} , 1 awr, wedi ei fesur fel lefel sŵn cefndir mewn unrhyw eiddo preswyl neu unrhyw eiddo sy'n sensitif i sŵn. Rhaid i'r mesuriadau a gymerir i wireddu cydymffurfiaeth ystyried effeithiau sŵn allanol a byddir yn cael eu cywiro ar gyfer effeithiau o'r fath.

At all other times, the noise level arising from the development's residual activities (e.g. water pumping, servicing, environmental monitoring or maintenance and testing of plant) shall not exceed 39 dB L_{Aeq} , 1 hour, free field at any residential or any other noise sensitive property. Measurements taken to verify compliance shall have regard to the effects of extraneous noise and shall be corrected for any such effects.

- (19) Dylid rhoi rhybudd ymlaen llaw i'r awdurdod cynllunio lleol am unrhyw waith dros dro all fod yn uwch na'r lefelau a osodir allan yn amodau 17 & 18, ac ni ddylent fod yn uwch na 70 dB L_{Aeq} , 1 awr sŵn cefndir a fynegir yn yr un dull ag yn amodau 17 & 18 yn unrhyw eiddo preswyl neu unrhyw eiddo arall sy'n sensitif i sŵn. Ni ddylai sŵn o waith dros dro fod yn uwch na'r terfynau sŵn a osodir uchod yn unrhyw eiddo sy'n sensitif i sŵn am fwy nac 8 wythnos mewn unrhyw gyfnod 12 mis heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol yr awdurdod cynllunio mwynau. Ni ddylid gwneud gwaith dros dro y tu allan i'r oriau 06.00 i 19.00 Dydd Llun i Dydd Gwener a rhwng yr oriau 07.00 i 13.00 ar y Sadwrn ac eithrio mewn argyfwng.

Temporary operations which may exceed the criterion levels set out in condition 17 & 18 shall be notified in advance to the mineral planning authority and shall not exceed 70 dB L_{Aeq} , 1 hour, free field, expressed in the same manner as in conditions 17 & 18 at any residential or any other noise sensitive property. Operations shall not exceed the noise limit set out above at any noise sensitive property for longer than a total of eight weeks in any 12-month period without the prior approval of the mineral planning authority. Temporary operations shall not be carried out outside the hours of 06.00 to 19.00 Mondays – Fridays and between 07.00 and 13.00 on Saturdays except in cases of emergency.

- (20) Oni gofynnir amdano fel arall mewn amod neu y cytunir mewn ysgrifen gyda'r awdurdod cynllunio mwynau, bydd y gweithredwr yn monitro lefelau sŵn bob chwe mis yn Ysbyty Eryri a Seiont Cottage pan fo'r safle yn gweithio ar adegau arferol a dim yn ystod egwyl gwaith. Rhaid i'r mannau monitro fod o leiaf 3.5 metr o'r ffasâd sy'n wynebu'r safle a dylid mesur y

sŵn am 15 munud ar y tro, oni bai fod lefel y sŵn ar y safle ar yr un lefel, neu'n uwch na'r uchafswm ar gyfer y lleoliad (Gweler ATODLEN 1), pan ddylid mesur am 1 awr gyfan. Dylai'r arolwg eithrio sŵn allanol cyn belled ag sy'n bosib. Dylai'r offer mesur a'r trefniadau fesur gydymffurfio â darpariaethau BS 4142: 1997 a LA90, T, a LAeq, T; a rhaid cofnodi lefelau sŵn yn ogystal â chofnodi'r tywydd a ffynonellau sŵn clywadwy. Dylid ymweld â phob lleoliad a chymryd mesuriadau ddwy waith yn ystod pob arolwg. Ar ddymuniad ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio mwynau, rhaid i'r gweithredwr gyflwyno i'r awdurdod heb unrhyw oediad gormodol, manylion am y mesuriadau sŵn. Gellir newid y lleoliadau monitro ac amledd y samplo, neu ohirio neu ganslo'r angen i gynnal arolwg os derbynnir caniatâd ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio mwynau. Os yw'r awdurdod yn ystyried nad yw'r sŵn o'r safle o fewn y cyfyngiadau sŵn (Gweler ATODLEN 1), bydd yr ymgeisydd, o dderbyn cais ysgrifenedig yr awdurdod, yn cynnal arolwg sŵn pellach ac yn cyflwyno manylion am y mesuriadau sŵn i'r awdurdod o fewn 14 diwrnod gwaith.

Unless otherwise required by condition or agreed in writing by the mineral planning authority, the operator shall monitor noise levels at six monthly intervals at Ysbyty Eryri and Seiont Cottage when the site is operating normally and not during work breaks. The monitoring points shall be at least 3.5 m from the façade facing the site and the measurements shall be of 15 minutes duration unless the site noise level is at or above the limit for the location (see SCHEDULE 1), in which event a full 1 hour sample shall be taken. The surveys shall exclude so far as possible extraneous noises such as passing traffic. The measurement equipment and procedure shall be carried out in accordance with the provisions of BS4142: 1997 and LA90, T, and LAeq, T noise levels shall be reported, together with the weather conditions and the sources of audible noise. Each location shall be visited and measured twice during the survey. Upon written request of the mineral planning authority, the applicant shall without undue delay furnish the authority with the particulars of the noise measurements. The monitoring locations and frequency of sampling may be varied, or the requirement to survey may be suspended or cancelled by agreement in writing with the mineral planning authority. If the authority are satisfied that noise from the site may be in breach of a noise limit (see SCHEDULE 1), the applicant shall, upon written request of the authority, carry out a further noise survey and shall furnish particulars of the noise measurements to the authority within 14 working days.

ATODLEN 1 / SCHEDULE 1

Location	Criterion LAeq, 1 hour, free field dB
Ysbyty Eryri	54.0
Seiont Cottage	57.0

Llwch / Dust

- (21) Ni chyflawnir unrhyw waith ar y safle mewn modd sy'n achosi codi a gwasgaru llwch a dylid dyfrio'r holl fannau y mae cerbydau olwyn yn eu croesi neu lle byddir yn trin neu symud defnydd chwarel neu fel arall eu trin ar yr adegau a'r cyfnodau hynny fel bo rhaid rhag codi llwch o'r fath.

No operations on the site shall be undertaken in such a manner as to cause the raising of fugitive dust and all areas traversed by wheeled vehicles or within which the handling or movement of quarried material is undertaken shall be watered or otherwise treated at such times and intervals as may be necessary to prevent the raising of such dust.

Golau / Light

- (22) O fewn 12 mis i'r dyddiad yma, byddir yn cysgodi'r holl lifoleuadau sydd yno ar ddyddiad y caniatâd hwn er mwyn lleihau i'r eithaf y golau a wasgerir at i fyny a'r ymyrraeth â thrigolion lleol. Dylunnir a gweithredir unrhyw lifoleuadau newydd ychwanegol neu rai yn eu lle yn yr un modd.

Within twelve months of the date hereof all floodlights in existence as at the date of this permission shall be shielded in such a manner as to cause minimum upward light scatter and minimum interference to local residents. Any replacement or additional floodlights shall be similarly designed and operated.

Llygredd Dwr Wyneb / Surface water pollution

- (23) Rhaid i unrhyw gyfleuster ar gyfer storio olew, tanwydd neu gemegolion gael eu lleoli ar seiliau anhydraidd a'u hamgylchynu â bwnd anhydraidd. Dylai cyfaint y compownd gyda bwnd fod o leiaf yn gyfartal i gynhwysedd y tanc, gyda 10% yn ychwanegol. Os oes amryfal danciau, dylai'r compownd fod o leiaf yn gyfartal â chynhwysedd y tanc mwyaf, neu'r cynhwysedd wedi'u cyfuno o'r tanciau cydgysylltiol, gyda 10% yn ychwanegol. Rhaid i'r holl fannau llenwi, awyrellu, medryddion a gwydrau golwg gael eu lleoli o fewn y bwnd. Rhaid selio system ddraenio'r bwnd heb unrhyw ollyngiad i gwrs dŵr, tir na strata tanddaearol. Dylid lleoli pibellau cysylltiol uwchben y llawr a'u gwarchod rhag niwed damweiniol. Dylid manylu bod oll fannau llenwi ac allfeydd gorlif y tanc i arllwys i lawr ac i mewn i'r bwnd.

Any facilities for the storage of oils, fuels or chemicals shall be sited on impervious bases and surrounded by impervious bund walls. The volume of the bunded compound should be at least equivalent to the capacity of the tank, plus 10%. If there are multiple tankages, the compound should be at least equivalent to the capacity of the largest tank, or the combined capacity of interconnected tanks, plus 10%. All filling points, vents, gauges and sight glasses must be located within the bund. The drainage system of the bund shall be sealed with no discharge to any watercourse, land or underground strata. Associated pipework should be located above ground and protected from accidental damage. All filling points and tank overflow outlets should be detailed to discharge downwards into the bund.

- (24) Er gwaethaf manylion y 'first stage water management works' dangosir ar gynllun rhif 'C22/13B', fel y cyflwynir i'r awdurdod ar 23 Mai 2003, rhaid cyflwyno i'r awdurdod cynllunio mwynau, cynlluniau manwl a manylebion technegol o'r sustem lagwnau gwaddodi/trin dwr wyneb sydd wedi'i osod o fewn tri mis i'r dyddiad yma. Yn ddaraostwng i fath addasiadau a chytunir mewn ysgrifen gyda'r awdurdod cynllunio mwynau, yn unol ag adolygiad ffurfiol o'r gwaith dan amodau 7, 8, & 9, rhaid cynnal y sustem drwy gydol cyfnod y caniatâd.

Notwithstanding the details of the 'first stage water management works' as shown on plan No. 'C22/13B' as submitted to the authority on 23 May 2003, plans and technical specifications of the installed surface water settlement/treatment lagoon system shall be submitted to the

mineral planning authority within three months of the date hereof. Subject to such modifications as may be agreed in writing with the mineral planning authority, in accordance with a formal review of operations under conditions 7, 8, & 9, the system shall be maintained for the duration of the planning permission.

- (25) Rhaid adeiladu a chynnal y lagwnau gwaddodi/triniaeth mewn modd i sicrhau nad yw dwr llygredig yn cael ei ollwng i unrhyw gwrs dwr.

The settlement/treatment lagoons shall be so constructed and maintained as to ensure that no polluted water shall be discharged into any watercourse.

- (26) Ac eithrio yng nghyswllt y datblygiad sydd ei angen dan amod, neu heblaw lle bo'r cyfryw ddatblygiad yn rhan annatod o'r cynllun gwaith a gyflwynwyd, ni ddylai unrhyw waith cloddio, tipio, paratoi na storio defnyddiau ddigwydd o fewn 10 metr i gwrs dwr. Ni chaniateir dan unrhyw amgylchiadau i unrhyw ddefnydd rwystro unrhyw gwrs dwr na chylfat na chaniatáu iddo gael ei erydu gan unrhyw gwrs dwr.

Except in connection with development required by condition or where such development is an integral part of the submitted scheme of operations, no extraction, tipping, preparatory works or storage of materials shall take place within 10 m. of a watercourse. Under no circumstances shall any material be permitted to block any watercourse or culvert or be permitted to be eroded by any watercourse.

Oriau Gwaith / Hours of Working

- (27) Ac eithrio mewn achos o argyfwng er mwyn gwneud gweithio yn y chwarel yn ddiogel, neu pan fo'r awdurdod cynllunio mwynau wedi cytuno fel arall mewn ysgrifen, ni chaniateir unrhyw chwarela neu waith cysylltiol, [gan gynnwys codi pridd ac adfer] heblaw pwmpio dwr, gwasanaethu, monitro amgylcheddol neu cynnal a phrofi offer ac eithrio rhwng yr amserau a ganlyn;

- (i) 07.00 i 19.00 Llun i Gwener
- (ii) 07.00 i 13.00 Sadwrn

Except in emergencies to maintain safe quarry working or unless the mineral planning authority have agreed otherwise in writing no quarrying or associated operation [including site stripping and restoration] other than water pumping, servicing, environmental monitoring or maintenance and testing of plant shall be carried out except between the following hours;

- (i) 07.00 to 19.00 Monday to Friday
- (ii) 07.00 to 13.00 Saturday.

- (28) Ni chaniateir unrhyw waith chwarel ar y Sul neu Wyliau Banc ac eithrio pwmpio dwr, monitro amgylcheddol a gwaith cynnal hanfodol.

No quarry operations other than water pumping, environmental monitoring and essential maintenance shall take place on Sundays or Bank Holidays.

Archeoleg / Archaeology

- (29) Os cloddir unrhyw weddillion o ddiddordeb archeolegol i'r wyneb, dylid hysbysu'r awdurdod cynllunio mwynau ar unwaith, atal y gwaith a 14 diwrnod rhesymol i bobl gyda'r cymwysterau priodol eu harchwilio.

In the event of any remains of archaeological interest being unearthed, the mineral planning authority shall be informed immediately, work suspended and 14 days afforded for an examination to be made by appropriately qualified persons.

Flora / fauna

- (30) Rhaid cyflwyno er cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio mwynau cynllun plannu coed a llwyni i ychwanegu at y tyfiant presennol ar gyfer y cyfan o'r gwyrriad afon. Oni chytunir fel arall mewn ysgrifen gyda'r awdurdod cynllunio mwynau, rhaid gweithredu'r cynllun plannu wedi hynny cyn diwedd y tymor plannu cyntaf sydd ar gael.

A scheme of tree and shrub planting to supplement the existing vegetation for the entire length of the diverted stream shall be submitted for the approval of the mineral planning authority within six months of the date hereof. Unless otherwise agreed in writing with the mineral planning authority, the planting scheme shall be implemented thereafter before the end of the first available planting season.

- (31) Byddir yn cadw'r coed a gwrychoedd a leolir tu allan i ardaloedd gweithio ar gyfer y dyfodol ac ni symudir heb ganiatâd ysgrifenedig yr awdurdod cynllunio mwynau.

Existing trees bushes and hedgerows, which lie outside the areas of future working, shall be retained and shall not be removed without the written consent of the mineral planning authority.

- (32) Cyn ymgymryd ag unrhyw ddatblygiad yn Ardal 'E' (fel y diffiniwyd yn yr 'Ecological Species Survey' ddyddiedig Rhagfyr 2002;

- rhaid fod wedi cynnal dau arolwg pellach o adar yn paru mewn perthynas â'r ardal yna,
- rhaid fod wedi cyflwyno'r canlyniadau i'r awdurdod cynllunio mwynau,
- rhaid fod wedi cyflwyno er cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio mwynau, fath fesuriadau fel y
bo'r angen i liniaru effeithiau'r datblygiad ar adar sy'n paru, ag,
- gweithredu'r mesuriadau lliniaru sydd wedi'u cymeradwyo.

Before any development is undertaken within Area 'E' (as defined in the Ecological Species Survey dated December 2002);

- two further surveys of breeding birds shall have been carried out in respect of that area,
- the results shall have been submitted to the mineral planning authority,
- such measures as may be required to mitigate the effects of the development on breeding birds and bats shall have been submitted to the mineral planning authority for approval, and,
- approved mitigation measures carried out.

- (33) Cyn ymgymryd ag unrhyw ddatblygiad yn Ardal 'E' (fel y diffiniwyd yn yr 'Ecological Species Survey' ddyddiedig Rhagfyr 2002;

- rhaid fod wedi cynnal dau arolwg pellach o ystlumod mewn perthynas â'r ardal yna,
- rhaid fod wedi cyflwyno'r canlyniadau i'r awdurdod cynllunio mwynau,
- rhaid fod wedi cyflwyno er cymeradwyaeth yr awdurdod cynllunio mwynau, fath fesuriadau fel y bo'r angen i liniaru effeithiau'r datblygiad ar adar sy'n paru, ag,
- gweithredu'r mesuriadau lliniaru sydd wedi'u cymeradwyo.

Before any development is undertaken within Area 'E' (as defined in the Ecological Species Survey dated December 2002);

- two further surveys of bats shall have been carried out in respect of that area,
- the results shall have been submitted to the mineral planning authority,
- such measures as may be required to mitigate the effects of the development on breeding birds and bats shall have been submitted to the mineral planning authority for approval, and,
- approved mitigation measures carried out.

Stripio Uwchbridd, Isbridd a Mawn / Topsoil, subsoil & peat stripping

- (34) Ni chyflawnir unrhyw ddatblygiad wyneb ar unrhyw ran o'r safle oni chodir a chedwir eu huwchbridd/isbridd/mawn.

No surface development shall be undertaken on any part of the site unless and until any topsoil / subsoil / peat thereon has been stripped and stored.

- (35) Rhaid i'r uwchbridd/isbridd/mawn na fwriadir i'w defnyddio'n syth, gael eu codi yn eu tro a'u storio mewn twmpathau dros dro yn y lleoliadau a ddangosir ar y cynlluniau a gyflwynwyd neu unrhyw leoliad arall y cytunwyd o dro i dro mewn ysgrifen gyda'r awdurdod cynllunio mwynau. Cyn ymgymryd â storio isbridd rhaid codi uwchbridd o unrhyw ardal(oedd) storio isbridd. Rhaid hadu'r twmpathau storio a'u cadw'n lân o chwyn a'u cynnal fel bo angen nes i'r pridd gael ei ail-wasgaru dros y safle yn unol â'r amodau adfer.

Topsoils / subsoils / peat not intended for immediate re-use shall be stripped in sequence and stored in temporary bunds at the locations indicated on the submitted plans or such other location as may be agreed from time to time in writing with the mineral planning authority. Before subsoil storage is undertaken topsoil shall be stripped from any subsoil storage area(s). The storage mounds shall be seeded and kept free of weeds and so maintained until the soil is re-spread over the site in accordance with the restoration conditions.

- (36) Rhaid rhoi rhybudd o leiaf 14 diwrnod i'r awdurdod cynllunio mwynau o gychwyn codi uwchbridd.

At least 14 days prior notice of commencement of topsoil stripping shall be given to the mineral planning authority.

- (37) Cyflawnir codi uwchbridd ac isbridd dim ond pan fo dyfnder llawn y pridd i'w godi neu'i symud mewn cyflwr addas sych.

Topsoil and subsoil stripping shall only be carried out when the full depth of the soil to be stripped or transported is in a suitably dry condition.

- (38) Ni chyflawnir unrhyw waith codi uwchbridd ac isbridd rhwng y misoedd Hydref i Fawrth gynnwysiedig heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol yr awdurdod cynllunio mwynau.

No topsoil and subsoil stripping operations shall be carried out between the months of October to March inclusive without the prior written consent of the mineral planning authority.

- (39) Ni symudir unrhyw uwchbridd neu isbridd oddi ar y safle heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol yr awdurdod cynllunio mwynau.

No topsoil or subsoil shall be removed from the site without the prior written consent of the mineral planning authority.

- (40) Ni chaiff offer na cherbydau groesi ardaloedd heb fod uwchbridd ac isbridd wedi'u codi ac eithrio ar gyfer pwrpas codi priddodd.

Plant and vehicles shall not cross areas of unstripped topsoil and subsoil except for the purpose of soil stripping.

- (41) Ailddefnyddir yr uwchbridd ac isbridd cyn gynted ag y bo modd ar ôl eu codi.

Topsoils and subsoils shall be re-used as soon as possible after they have been stripped.

- (42) Ni chedwir uwchbridd mewn tomenni sy'n uwch na 2 fetr.

Topsoil shall not be stored in mounds in excess of 2 metres in height.

Rhesymau am yr amodau / Reasons for Conditions.

1. I hwyluso rheolaeth cynllunio briodol ar y chwarel
To facilitate the proper planning control of the quarry
2. I hwyluso rheolaeth cynllunio briodol ar y chwarel
To facilitate the proper planning control of the quarry
3. I hwyluso rheolaeth cynllunio briodol ar y chwarel
To facilitate the proper planning control of the quarry
4. I sicrhau datblygiad priodol o'r safle
To secure the proper development of the site
5. Er budd mwynder gweledol yr ardal
In the interests of the visual amenity of the area
6. I hwyluso rheolaeth cynllunio briodol ar y chwarel
To facilitate the proper planning control of the quarry
7. I hwyluso rheolaeth cynllunio briodol ar y chwarel
To facilitate the proper planning control of the quarry
8. I hwyluso rheolaeth cynllunio briodol ar y chwarel
To facilitate the proper planning control of the quarry
9. I hwyluso rheolaeth cynllunio briodol ar y chwarel
To facilitate the proper planning control of the quarry
10. Er budd mwynder gweledol yr ardal a chyfanrwydd y safle RIGS
In the interests of the visual amenity of the area and the integrity of the RIGS site
11. Er budd sicrhau mynediad i'r safle RIGS
In the interests of securing access to the RIGS site

12. Er budd sicrhau mynediad i'r safle RIGS
In the interests of securing access to the RIGS site
13. Er budd mwynder gweledol yr ardal
In the interests of the visual amenity of the area
14. Er budd mwynder gweledol yr ardal
In the interests of the visual amenity of the area
15. Er budd mwynder gweledol yr ardal
In the interests of the visual amenity of the area
16. Er budd diogelwch y cyhoedd
In the interests of public safety
17. I leihau tarfu o ganlyniad y datblygiad
To minimise disturbance from the development
18. I leihau tarfu o ganlyniad y datblygiad
To minimise disturbance from the development
19. I leihau tarfu o ganlyniad y datblygiad
To minimise disturbance from the development
20. I leihau tarfu o ganlyniad y datblygiad
To minimise disturbance from the development
21. Er budd mwynderau trigolion lleol
In the interests of the amenity of local residents
22. Er budd mwynderau trigolion lleol
In the interests of the amenity of local residents
23. Rhag llygru cyrsiau dwr lleol
To prevent the pollution of local water courses
24. Rhag llygru cyrsiau dwr lleol
To prevent the pollution of local water courses
25. Rhag llygru cyrsiau dwr lleol
To prevent the pollution of local water courses
26. Rhag llygru cyrsiau dwr lleol
To prevent the pollution of local water courses
27. Er budd mwynderau trigolion lleol
In the interests of the amenity of local residents
28. Er budd mwynderau trigolion lleol
In the interests of the amenity of local residents
29. Er budd gwarchod treftadaeth archeolegol
In the interests of preserving the industrial archaeological heritage
30. Er budd cadwraeth fflora a ffawna lleol
In the interests of the preservation of local flora and fauna
31. Er budd cadwraeth fflora a ffawna lleol
In the interests of the preservation of local flora and fauna
32. Er budd cadwraeth fflora a ffawna lleol
In the interests of the preservation of local flora and fauna
33. Er budd adfer y safle'n iawn
In the interests of the proper restoration of the site
34. Er budd adfer y safle'n iawn
In the interests of the proper restoration of the site
35. Er budd adfer y safle'n iawn
In the interests of the proper restoration of the site
36. Er budd adfer y safle'n iawn
In the interests of the proper restoration of the site

37. Er budd adfer y safle'n iawn
In the interests of the proper restoration of the site
38. Er budd adfer y safle'n iawn
In the interests of the proper restoration of the site
39. Er budd adfer y safle'n iawn
In the interests of the proper restoration of the site
40. Er budd adfer y safle'n iawn
In the interests of the proper restoration of the site
41. Er budd adfer y safle'n iawn
In the interests of the proper restoration of the site

Wrth ystyried y cais yma roedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol o'r farn bod y polisiau a rhestrir isod yn berthnasol:

- Polisiau DD2, DD6, DD7, o Gynllun Fframwaith Gwynedd,
- Polisiau, canllawiau ac egwyddorion cyffredinol Polisi Cynllunio Mwynau (Rhag 2000) Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru,
- Polisi GP1, GP3, GP6, GP8, GP10, Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol Mwynau Cyngor Gwynedd,
- Polisi C7, C12 fersiwn Ddrafft Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd.

The Local Planning Authority is of the opinion that the policies listed below were relevant in the consideration of this application:

- Policy DD2, DD6, DD7, of the Gwynedd Structure Plan,
- Policies, guidance and general principles set out in the Welsh Assembly Government Minerals Planning Policy (Dec 2000),
- Policy GP1, GP3, GP6, GP8, GP10, Gwynedd Council Supplementary Minerals Planning Guidance,
- Policy C7, C12 of the Draft Gwynedd Unitary Development Plan.

Cytundeb gwirfoddol rhwng Cyngor Gwynedd a chwmni Hanson Building Products Cyf. i greu grwp cyswllt chwarel a chynnal cyfarfodydd y grwp cyswllt ar gyfer;

GWAITH BRICS SEIONT, CAERNARFON

CYFANSODDIAD Y GRWP CYSWLLT

1. Cylch Gorchwyl

- (i) Sefydlu fforwm i drafod materion a lleisio pryderon yn ymwneud â gwaith yn Gwaith Brics Seiont.
- (ii) Cyfnewid gwybodaeth gyda'r bwriad o sefydlu cyswllt rhwng pob ochr

(Er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd y cadeirydd yn derbyn penderfyniadau i bleidleisio arnynt).

2. Cadeirydd

Yr Aelod lleol, Cynghorydd Dafydd Iwan

3. Aelodaeth

(i) Rheolaidd

1 Cynrychiolydd ac 1 eilydd o Gyngor Cymuned Bontnewydd

1 Cynrychiolydd ac 1 eilydd o Gyngor Cymuned Waunfawr

1 Cynrychiolydd ac 1 eilydd o Gyngor Tref Caernarfon

Y Swyddog Cynllunio Mwynau ac unrhyw swyddog priodol arall o'i Adran.

Cynrychiolyddion y Cwmni Gwaith (Hanson)

(ii) Gwahoddedigion

Y sawl a wahoddir gan y cadeirydd i annerch ar faterion o ddiddordeb neu bryder arbennig, e.e., Swyddog o Adran Iechyd Amgylchedd y Cyngor, Arbenigwyr Cadwraeth Natur a Geolegol ac ati.

4. Cyfarfodydd

- (i) Dim mwy na 2 gyfarfod y flwyddyn
- (ii) Cyfarfodydd i gyd i gael eu cynnal yn Swyddfeydd Safle Gwaith Brics Seiont, Caernarfon.
- (iii) Ni ddylai cyfarfodydd fod yn agored i'r cyhoedd.

5. Gwasanaeth Ysgrifenyddol.

- (i) Cofnod cywir o'r cyfarfodydd i'w cymryd, agendâu a chofnodion i'w cyhoeddi yn rheolaidd a bod ar gael i'r cyhoedd.
 - (ii) Gwasanaeth i'w ddarparu gan Cyngor Gwynedd.
6. Iaith.

Dwyieithog llafar ac ysgrifenedig.

Mae Cyngor Gwynedd a Chwmni Hanson Cyfyngiedig yn cytuno i greu grwp cyswllt ar gyfer Gwaith Brics Seiont yn unol a'r cyfansoddiad uchod gyda'r cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ddim hwyrach na 2006 gyda chyfarfodydd yn parhau drwy gydol gwaith y chwarel .

Arwyddwyd gan:

Pennaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth ar y (dyddiad).....

ar ran Cyngor Gwynedd.

.....ar y (dyddiad)..... ar ran Cwmni Hanson Building Products Cyf.

Voluntary agreement between Gwynedd Council And Hanson Building Products Ltd To form a quarry liaison group and to conduct meetings of the liaison group for;

SEIONT BRICKWORKS, CAERNARFON

CONSTITUTION OF THE QUARRY LIAISON GROUP

1. Terms of Reference

- (i) To provide a forum for discussion and to express any concerns relating to the operation of Seiont Brickworks.
- (ii) To exchange information with a view to improving levels of mutual understanding between all parties.

(For the avoidance of doubt the chairman will not accept resolutions to be put to a vote.)

2. Chairperson

The local member, Councillor Dafydd Iwan

3. Membership

- (i) Regular
 - 1 representative and 1 reserve from Caernarfon Town Council.
 - 1 representative and 1 reserve from Waunfawr Community Council
 - 1 representative and 1 reserve from Bontnewydd Community Council
 - The Minerals Planning Officer and any other appropriate officer from his Department.
 - Representatives from the operating company.

- (ii) Invitees

Persons by invitation of the chairman to address particular matters of interest or concern, eg. The Council's Environmental Health Officer, Nature Conservation Expert, Geological Expert etc

4. Meetings

- (i) Not more than 2 meetings per calendar year
- (ii) All meetings to be held at the Site Offices, Seiont Brickworks Caernarfon.
- (iii) Meetings shall not be open to the public.

5. Secretariat

- (i) Proper record of meetings to be taken, agendas and minutes published regularly and available to public
- (ii) Service to be provided by Gwynedd Council.

6. Language

Bilingual spoken and written.

Gwynedd Council and Hanson Aggregates Ltd hereby agree to form a quarry liaison group and to conduct quarry liaison group meetings in accordance with the above constitution and the first meeting of the group shall be undertaken before the end of 2006, with meetings continuing throughout operation of the quarry.

Signed by:

Head of Planning and Transportation on (date).....

On behalf of Gwynedd Council

.....on (date)..... on behalf of Hanson Building Products Ltd.